# CWTSH MYRDDIN

*Rhifyn – 7.04.2017*

## Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin

Llongyfarchiadau i Garmon Dyfri o flwyddyn 12 ar gael ei ethol i gynrychioli Cyngor Ysgol Bro Myrddin ar Gyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin. Pob hwyl gyda'r gwaith.

## Criw sain a golau



Cafodd criw o ddisgyblion sy'n cynorthwyo gyda Sain a golau'r ysgol gyfle i fynychu cwrs gan Aspire 2 Be yn y Principality yn ddiweddar gyda Sean Holley. Cawsant ddysgu sgiliau darlledu a thechnoleg. Yn y llun gwelir: Lara May, Joseff Rhys Ellis, Trystan Evans, Owen Cray, Harry Potter ac Eliot Almeida.

## Llwyddiant cerddorol blwyddyn 8

Llongyfarchiadau i Iolo Dafydd, Ffion Talbot a Carina Sidhu ar ei llwyddiant pasio gradd 3 clarinét yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Gwenllïan Howells ar basio gradd 6 fiolín. Dymunwn hefyd longyfarch Betsan Campbell, Elain Owen, Elan Williams, Carys Davies a Caitlyn Williams ar basio gradd canu'n ddiweddar.



# Adran Gerdd - Ebrill 2017




Bu carfan o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn Ysgol Maes y Gwendraeth fore Mawrth, Ebrill 4ydd yn gwrando ar berfformiad o gyfansoddiadau pum disgybl o Fro Myrddin sef Steffan Jones, Alaw Evans, Daniel O'Callaghan, Ffion Richardson ac Elin Wyn James. Roedd y bore yn ffrwyth cystadleuaeth a drefnwyd gan brosiect Cyfansoddwr Ifanc Dyfed, ac roedd cyfansoddiadau'r disgyblion yn cael eu perfformio yno gan ddeuawd proffesiynol - Steve Bingham a Chris Brannick*;* profiad hyfryd I'r disgyblion. Cafodd Alaw ac Elin y profiad ychwanegol o gael eu darnau wedi eu perfformio mewn cyngerdd cyhoeddus ym Mhlasdy Rhosygilwen ym Moncath brynhawn Sul, Ebrill 9fed. Wele lun o Elin Wyn ac Alaw yng nghwmni'r cerddorion.

Yna y bore canlynol, cafwyd sesiwn ardderchog yn yr Adran Gerdd yng nghwmni'r pianydd proffesiynol Iwan Llywelyn Jones. Ffocws y bore oedd y gwaith gosod ar gyfer Lefel A sef Concerto yn G Fwyaf gan Maurice Ravel. Y cyfansoddwr Ffrengig hwn oedd testun doethuriaeth Iwan Llewelyn Jones, ac yn sicr roedd dyfnder ei wybodaeth yn cyfoethogi addysg disgyblion Blwyddyn 13. Roedd hi'n braf cael cwmni disgyblion Chweched dosbarth Ysgol Maes y Gwendraeth ac Ysgol y Strade yn y sesiwn buddiol hwn.




Yna, yn dilyn y noson wobrwyo nos Iau, Ebrill 6ed, bu pedwarawd o'r Chweched Dosbarth - Sioned Beynon, Elin Wyn James, Elin Jones a Hannah Richards yn cyflwyno adloniant yng nghinio *Cynhadledd Ymchwil Mewn Addysg yr Athrofa; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu* yng Ngholeg y Drindod. Cafwyd rhaglen hyfryd ganddynt; diolch iddynt am eu parodrwydd i gyfrannu bob amser.

Braf llongyfarch nifer o gantorion yr ysgol ar eu llwyddiant gyda Chôr Sir Gâr wrth iddynt gyrraedd rownd derfynol Côr Cymru, a diolch iddynt am gefnogi gweithgareddau sirol. Dymuniadau gorau iddynt nos Sul, Ebrill 9fed yn Aberystwyth.

# *Noson Wobrwyo Ysgol Bro Myrddin*

Ar nos Iau, 6ed o Ebrill 2017 cynhaliwyd noson wobrwyo flynyddol Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. Y siaradwr gwadd oedd Mr Gareth Morgans, cyfarwyddwr Addysg y Sir. Diolch iddo am ei araith ddifyr iawn a phwrpasol. Cafwyd eitem gerddorol gan grŵp Llinynnol yr Ysgol sef Venezia; trefniant Peter Martin dan arweiniad Mr Norman Roberts.  Cafwyd cân gan y Côr merched  hŷn sef “Gwenllïan” (Eric Jones/Peter Hughes Griffiths) a chân gan y Côr hŷn  sef Cân ddawns Siecoslofaciaididd (Tradd /J.M.Lewis/TR C.F. Manney) o dan Arweiniad Mrs Meinir Richards a Ms Nia Evans yn cyfeilio.




Braf oedd gweld disgyblion presennol yr ysgol, cyd ddisgyblion a’u rhieni’n bresennol. Croesawyd pawb gan y brif ferch Sioned Beynon a gwnaethpwyd y diolchiadau i gloi gan Carwyn Bebb, y prif fachgen. Anerchwyd y gynulleidfa hefyd gan y pennaeth Dr Llinos Jones a dosbarthwyd y gwobrwyon gan Mr Gareth Morgans a’r pennaeth. Darparwyd lluniaeth i bawb ar ddiwedd y noson - diolch i Mrs Non Knott a’i thîm o gynorthwywyr a fu’n paratoi a gweini’r arlwy. Llongyfarchiadau gwresog i’r holl ddisgyblion ar eu llwyddiannau ac eto eleni i’r noddwyr a gyfrannodd tuag at y gwobrau. Diolch yn fawr i bawb.

# Enillwyr Gwobrau 2017

| | | |
|---|---|---|
| Gwobr Ysgol Bro Myrddin | : | *Sophie McLaughlin* |
| Gwobr Goffa Beti Hughes | : | *Gwenllïan Phillips* |
| Tlws Gareth Evans (bl.13)<br>*(cyfraniad i fywyd diwylliannol yr ysgol* | : | *William Pritchard* |
| Tlws Gareth Evans (bl.11/13)<br>*(ymdrech gyson ym mlwyddyn 10/11 neu 12/13* | : | *Teleri Jones* |
| Gwobr St Peter's Players | : | *Ela James* |
| Tlws Coffa Megan a Myfanwy | : | *Rachel Morgan* |
| Tlws Coffa Rhian Denby Jones | : | *Mared Owen* |
| Tlws yr Adran Fusnes | : | *Nia Locker* |
| Tlws Andrew Rees | : | *William Pritchard* |
| Tlws yr Adran Gerdd | : | *Mared Owen* |
| Tlws Hugh Griffiths | : | *Gruffudd Evans* |
| Tlws Coffa Margaret Morris | : | *Carys Jones* |
| Tlws Addysg Gorfforol | : | *Will Evans* |
| Tlws Elin Ruth Jenkins | : | *Jessicca Thomas* |
| Tlws Non Jenkins | : | *Meurig Francis* |
| Tlws Peter Hughes Griffiths | : | *Edward Rocke* |
| Tlws Emlyn Schiavone | : | *Osian McAvoy* |
| Tlws Rheon ac Elliw James | : | *Thomas Jones* |

# Llwyddiant chwaraeon:

**Trawsglwad Cymru**

Llongyfarchiadau i Thomas Jones blwyddyn 12 a Daisy Thompson a Liam Edwards blwyddyn 8 ar gael eu dewis i fod yn rhan o sgwad trawsglwad Cymru yn dilyn eu llwyddiant diweddar.

**Pencampwyr Cwpan Rygbi Ysgolion Cymru**




Llongyfarchiadau i dîm rygbi hŷn yr ysgol am ennill Cwpan 2017 URC Ysgolion dan 18 yn erbyn Ysgol Llanisien ym Mharc yr Arfau Caerdydd ar  Ddydd Llun y 3ydd o Ebrill. Bu'n ddiwrnod cyffrous i bawb gyda dros 600 o ddisgyblion wedi mynd i gefnogi'r tîm. Gwych fechgyn

**Rygbi 7 bob ochr Urdd WRU**




Da iawn i dîm Rygbi bechgyn flwyddyn 7 ar ddod yn 2il yng nghystadleuaeth Rygbi 7 bob ochr yr Urdd yn ddiweddar.



**Slalom**

Llongyfarchiadau i Osian Williams am ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth Slalom C1 MAN yn Llandysul yn mis Mawrth. Da iawn ti.

**Celtic Twirlers**

Llongyfarchiadau i Cerys Davies o flwyddyn 9 sy'n aelod o'r Celtic Twirlers. Cafodd y grŵp lwyddiant ysgubol yn Bournemouth yn ddiweddar gan gipio 20 gwobr yn y gystadleuaeth genedlaethol.

**Ras 10k Gaerdydd**

Ar fore Sul yr 2il o Ebrill bu staff o'r ysgol yn rhedeg 10K Caerdydd er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen Altheizeimers. Roedd disgyblion yr ysgol wedi cyfrannu arian hefyd trwy wisgo gwisg ei hunain ar gyfer yr elusen a'r llain galed 3G. Da iawn i bawb a fu'n rhan o'r ras. Yn y llun gweler Mrs Eiri Thomas, Miss Bethan Williams, Mrs Eirlys Thomas, Mrs Gwenan Morgans, Mrs Alwen Owen, Mr Gwyn Jones , Dr Huw Griffiths, Mrs Luned Davies ac Eleri Macrae.

